

Cronfa Cymunedau'r Arfordir - Amodau a Thelerau Ychwanegol ar gyfer Grantiau Cyfalaf

(Diwygiwyd 18 Awst 2016)

1. Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu neu adeiladu, adnewyddu, estyn neu newid adeiladau neu dir ("asedau cyfalaf"), rydym yn deall y bydd yr amodau a thelerau safonol hyn yn berthnasol i'n grant yn ogystal â'r holl amodau eraill rydych yn eu gosod arnom.
- 2 Rydym yn deall ac yn derbyn y gallwch fynnu cadarnhad gan ein cyfreithwyr bod gennym y pwerau cyfreithiol o dan ein dogfennau llywodraethu i ymgymryd â'r prosiect ac i weithredu'r dogfennau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'n grant. Os ydych wedi gofyn am farn gyfreithiol, deallwn na fyddwch yn talu mwy nag uchafswm o 5% o'r grant cyfalaf nes i chi dderbyn y dogfennau wedi'u cwblhau er boddhad i chi.
- 3 Nid oes gennym unrhyw fenthyciadau nas datgelwyd wedi'u sicrhau ar yr asedau cyfalaf. Ni fyddwn yn trefnu unrhyw fenthyciadau sydd wedi'u sicrhau ar unrhyw asedau cyfalaf a ariennir/ariennir yn rhannol gan y grant cyfalaf oni bai ein bod yn derbyn eich cydsyniad yn ysgrifenedig yn gyntaf. Gallai eich cydsyniad fod yn destun amodau, y bydd yn rhaid i ni eu bodloni.
- 4 Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu tir (p'un a yw'n rhydd-ddaliad, etifeddadwy neu brydles), byddwn yn anfon y dogfennau canlynol atoch pan ofynnir amdanynt:
 - adroddiad syrfëwr ar gyflwr yr eiddo, ei werth at ddiben y prosiect a pha un a yw'n addas ar gyfer y prosiect ai beidio;
 - cadarnhad gan ein cyfreithwyr y daethpwyd o hyd i bob caniatâd gofynnol ar gyfer defnyddio'r eiddo at ddibenion y grant;
 - os yw'r grant ar gyfer £100,001 neu fwy (neu os ydym yn cyfrannu llai na hyn at gyfanswm cost gyfalaf o £100,001 neu fwy), tystysgrif teitl wedi'i llenwi gan ein cyfreithwyr ar y ffurflen y byddwch yn ei chyflenwi.
6. Os yw unrhyw ran o'r grant cyfalaf ar gyfer prynu tir prydlesol, byddwn yn sicrhau y bydd y les ar gyfer yr isafswm cyfnod o flynyddoedd a ganlyn

- Ar gyfer grant cyfalaf gwerth hyd at a chan gynnwys £100,000: les o 5 mlynedd o leiaf heb gymal torri.
- Ar gyfer grant cyfalaf o fwy na £100,001 ond llai na £350,000, les gofrestradwy ac aseiniadwy o 10 mlynedd o leiaf, heb gymal torri.
- Ar gyfer grant cyfalaf rhwng £350,000 a £5 miliwn (cynhwysol): les gofrestradwy ac aseiniadwy o 20 mlynedd o leiaf, heb gymal torri.
- Ar gyfer grant cyfalaf gwerth mwy na £5 miliwn: les gofrestradwy ac aseiniadwy o 40 mlynedd o leiaf, heb gymal torri.
- Os yw'r grant am £350,000 neu fwy ac ar gyfer prynu tir ar rydd-ddaliad, byddwn yn anfon copi o'r les wedi'i lofnodi atoch.

7. Os bydd rhan neu'r cyfan o'n grant cyfalaf yn cael ei ddefnyddio ar gyfer **unrhyw waith adeiladu** rydym yn deall ac yn derbyn:

- y byddwch yn cadw 95 y cant o'r grant cyfalaf hyd nes i ni ddarparu'r canlynol ar ffurf foddhaol:
 - tystiolaeth ein bod wedi derbyn unrhyw ganiatâd cynllunio angenrheidiol, caniatâd adeilad rhestredig a chaniatâd rheoliadau adeiladu (neu unrhyw ganiatâd neu reol berthnasol arall) y mae ei angen ar gyfer y gwaith adeiladu; a
 - thystiolaeth y cyflawnwyd proses dendro gystadleuol sy'n cydymffurfio â'r Undeb Ewropeaidd gydag o leiaf tri dyfynbris wedi'u derbyn gan dri adeiladwr annibynnol. Er mwyn i ni gomisiynu'r gwaith adeiladu o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, byddwn yn darparu tystiolaeth o'r broses dendro a gyflawnwyd i adnabod contractwyr presennol;
- y byddwch yn gwneud taliadau fesul cam pan fyddwch yn derbyn anfonebau gan adeiladwyr neu yn erbyn tystysgrifau dros dro a gwblhawyd ar y ffurflen RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain) neu RIAS (Corfforiad Brenhinol Penseiri'r Alban) neu anfonebau priodol eraill;
- y byddwch chi'n cadw 5% o'r rhan o'r grant ar gyfer y gwaith adeiladu nes i chi dderbyn y dystysgrif cwblhau ymarferol. Yna byddwn yn anfon y dystysgrif cywiro diffygion atoch chi; y dystysgrif derfynol; cadarnhad ein bod ni wedi dod o hyd i dystysgrif gwblhau gan reoliadau adeiladu; a chadarnhad ein bod ni wedi dod o hyd i'r dystysgrif yswiriant adeiladu; a

- bod yn rhaid i ni gael caniatâd ysgrifenedig cyn bwrw 'mlaen os ydym eisiau gwneud newidiadau sylweddol i gwmpas y gwaith adeiladu.

8. Os yw'r grant ar gyfer £100,001 neu fwy (neu os ydym yn cyfrannu llai na hyn at gyfanswm cost gyfalaf o £100,001 neu fwy) ac y caiff hwn ei ddefnyddio ar gyfer **unrhyw waith adeiladu**, rydym yn deall ac yn cydnabod:

- y bydd angen cadarnhad arnoch (ar ffurf tystysgrif teitl, y byddwch chi'n ei darparu) gan ein cyfreithwyr mai ni yw prydleswr, rhydd-ddeiliad neu berchennog etifeddadwy yr asedau cyfalaf y mae'r grant yn gysylltiedig â nhw ac y gellir defnyddio'r asedau cyfalaf at ddiben y grant;
- y byddwch yn cadw 95 y cant o'r grant cyfalaf hyd nes i ni ddarparu'r canlynol ar ffurf sydd wedi'i chwblhau er boddhad i chi:
 - copi o'r adroddiad adolygu tendr. Er mwyn i ni gomisiynu'r gwaith adeiladu o dan drefniadau tendro ymlaen llaw, byddwn yn darparu tystiolaeth i chi bod costau wedi'u profi gyda'r farchnad i gadarnhau gwerth am arian;
 - crynodeb costau, llif arian a rhaglen ar gyfer y prosiect cyfalaf, i gyd wedi'u diweddarau; a
 - thystiolaeth ein bod wedi sicrhau'r holl arian partneriaeth y mae ei angen ar gyfer y prosiect cyfalaf;
- mae'n rhaid i ni gyflogi gweithiwr adeiladu proffesiynol arweiniol i reoli'r broses dendro, y mae'n rhaid a chadarnhau bod y gwaith adeiladu wedi'i gyflawni'n briodol;
- os oes angen gwaith adeileddol, mae'n rhaid i ni gyflogi peiriannydd adeileddol;
- byddwn yn defnyddio gweithwyr adeiladu proffesiynol sy'n aelodau cwbl gymwysedig o gorff proffesiynol cymeradwy, gyda phob ffurf angenrheidiol ar yswiriant indemniad proffesiynol; a

- phan fydd gofynion y Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) yn berthnasol, byddwn yn cadarnhau ein bod wedi penodi Prif ddylunydd a Phrif gontractwr.
9. Os nad ydym yn hawlio taliadau grant cyfalaf o fewn tri mis ar ôl dyddiad y gwariant perthnasol, rydym yn deall y byddwch yn gostwng ein grant cyfalaf mewn ffordd gymesur yn unol â'r gwariant cyfalaf gwirioneddol ar gyfer y cyfnod hawlio.
10. Os bydd angen i ni ddefnyddio'r asedau cyfalaf i godi arian pellach, yn gyntaf byddwn yn cael eich cydsyniad yn ysgrifenedig, a allai fod yn destun amodau y bydd yn rhaid i ni eu bodloni. Bydd angen i chi gael eich bodloni bod y benthyciwr newydd yn deall ac y bydd yn rhoi buddiannau buddiolwyr y prosiect yn gyntaf. Ymrwymwn i'r canlynol:
- bydd unrhyw fenthyciad sydd wedi'i sicrhau ar yr asedau cyfalaf yn cael eu defnyddio'n gyfan gwbl ar gyfer y prosiect; ac
 - ni fydd yr uchafswm benthyciad yn uwch na'r swm sy'n cael ei gynnig gan y benthyciwr newydd.
11. Ni fyddwn yn gwerthu, prydlesu, gosod, isosod neu fel arall gwaredu neu newid defnydd unrhyw ased cyfalaf heb dderbyn caniatâd ysgrifenedig gennych chi, a allai gynnwys amodau penodol y bydd yn rhaid i ni eu bodloni. Os byddwn yn gwerthu neu'n gwaredu unrhyw ased cyfalaf o fewn pum mlynedd, mae'n bosib y bydd yn rhaid i ni ad-dalu'r cyfan neu ran o'r arian rydym wedi'i dderbyn gennych. Bydd y swm rydym yn ei ad-dalu'n gymesur yn uniongyrchol â'r gyfran o'r prosiect a ddaeth oddi wrthy'ch chi. Os byddwn yn gwerthu unrhyw ased cyfalaf a brynwyd gyda'r grant yn rhannol neu'n gyfan gwbl, ar ôl cael caniatâd gennych chi, bydd hynny ar werth llawn y farchnad.
12. Rydym yn deall ac yn derbyn y bydd cyfnod monitro asedau dwy flynedd yn dechrau o ddyddiad prynu'r ased cyfalaf neu ddyddiad cwblhau'r gwaith adeiladu, p'un bynnag yw'r hwyraf.